# CYTUNDEB CYNNAL MYNWENT, MEYSYDD CHWARAE A LLWYBRAU CYHOEDDUS CYNGOR CYMUNED LLANRUG 01/04/2023 - 31/3/202612:

| RHAGYMADRODD | |
|---|---|
| EITEM. | **MANYLION.** |
| | **MATERION CYFFREDINOL I GYTUNDEB Y FYNWENT, MEYSYDD CHWARAE A'R LLWYBRAU CYHOEDDUS.** |
| 1.0 | Gydag unrhyw achos sydd angen diffiniad ynghylch gofynion neu fanylion y ddogfen hon, bydd penderfyniad y cyngor yn un terfynol. |
| 1.1 | Bydd Cyngor Cymuned Llanrug (y cyngor) yn cynnal gorolwg o wasanaeth yr contractwr ynghyd â'i drefniant gwaith. Gall y cyngor atal taliad llawn mewn achos o'r contractwr fethu â chyflawni neu gydymffurfio â gofynion y ddogfen hon. |
| 1.2 | Gall yr contractwr neu'r cyngor ddileu'r cytundeb trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig gydag un mis calendr o gyfnod cyn iddo ddod yn weithredol. Bydd y cyngor yn adolygu ei drefniant am y tair blynedd petai'r amgylchiadau cyllidol yn newid yn sylweddol. |
| 1.3 | Ni all yr contractwr drosglwyddo gwaith y contract i is-contractwr heb ganiatâd ffurfiol ymlaen llaw oddi wrth y cyngor. |
| 1.4 | Bydd yr contractwr yn gweithredu yn unol â threfn waith o ddewis a blaenoriaeth y cyngor pe cyflwynir cyfarwyddyd i wneud hynny gan y clerc. |
| 1.5 | Mae'n ddisgwyliedig i'r contractwr fod yn hollol gyfarwydd â'r llwybrau, meysydd chwarae a'r fynwent ar adeg prisio'r tendr i'r cyngor. Ni fydd yr ymweliadau hyn ar gost y cyngor. |
| 1.6 | Ni chaniateir i'r contractwr gyflawni unrhyw waith yn y fynwent ar y Sul. |
| 1.7 | Rhaid i'r contractwr ddefnyddio offer priodol ac addas ar gyfer ei weithgareddau a gofynion y cyngor. |
| 1.8 | Gall y cyngor fod angen gwaith ychwanegol y tu allan i'r cyfnod gwaith sylfaenol sydd yn y contract a defnyddir y cyfraddau o'r atodlen prisiau i sefydlu'r costau. |
| 1.9 | Rhaid i'r tendr fod wedi dderbyn gan y clerc erbyn **12:00 Dydd Llun , 12fed o Rhagfyr 2022** mewn amlen wedi ei farcio **TENDR.** |
| 1.10 | Rhaid i'r contractwr yrru copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i'r cyngor yn flynyddol. Os bydd elfen o chwistrellu yn y cytundeb, rhaid i'r contractwr fod yn berchen ar drwydded gyfredol berthnasol, ac anfon copi i'r clerc. Bydd rhaid i'r contractwr fod yn berchen ar yr holl drwyddedau cyfredol ar gyfer cyflawni'r gwaith. Dylid cyflenwi copïau yn flynyddol. |
| 1.11 | Rhaid i'r contractwr ddangos tystiolaeth o wybodaeth ynglŷn â'r cyfarpar a ddefnyddir. |
| 1.12 | Rhaid i'r contractwr gynnwys datganiad ysgrifenedig i'r cyngor gyda'r ffurflen tendr o sut y gwaredir a 1) unrhyw wair y fynwent, 2) unrhyw wair o'r meysydd chwarae 3) gordyfiant ar y llwybrau cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| | **MATERION YN BERTHNASOL I GYTUNDEB Y FYNWENT**. |
| 2.0 | Nifer y toriadau'r flwyddyn- (GWÊL ISOD) Mynwent Cyngor Cymuned Llanrug |
| 2.1 | Golyga pob un cyfeiriad at "mynwent" yr holl o'i arwynebedd, gan gynnwys hyd at y waliau ar feddau. |
| | **MATERION YN BERTHNASOL I GYTUNDEB Y MEYSYDD CHWARAE** . |
| 3.0 | Nifer y toriadau'r flwyddyn- (GWÊL ISOD) - Meysydd chwarae Cyngor Cymuned Llanrug |
| 3.1 | Mae'r cyngor yn gyfrifol am faes chwarae Nant y Glyn, Pwll Moelyn, Allt Goch a Dolafon |
| 3.2 | **Mae'n ofynnol wrth dorri'r gwair i roi arwyddion i fyny i hysbysu'r cyhoedd fod toriant yn cymryd lle, ac o bosib peidio gadael i blant bach chwarae pan mae'r gwair yn cael ei dorri.** |
| | **MATERION YN BERTHNASOL I'R CONTRACT LLWYBRAU CYHOEDDUS.** |
| 4.0 | Mae'r holl lwybrau cyhoeddus y gymuned sydd angen toriad yn ymddangos ar **Atodiad 2**. |
| 4.1 | Golyga pob un cyfeiriad at "llwybr cyhoeddus" lled llawn y ffurf llwybr sydd wedi datblygu ar y tir neu, pan nad oes ffurf o'r fath, llwybr tramwy yn mesur 1m o led. |
| 4.2 | Mae'r gwaith torri llystyfiant ac agor llwybrau yn cynnwys y canlynol : Torri llystyfiant o arwynebedd llawn y Llwybr. Symud unrhyw rwystr o'r Llwybr sydd yn amharu â cherddwyr. Agor lled o 1 medr heb dyfiant o ochrau'r llwybrau . |
| 4.3 | Rhaid i contractwr gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr, rheoliadau iechyd a diogelwch priodol a gofynion COSH wrth ddefnyddio ac ymdrin â chwynladdwr mewn perthynas â gwaith y gytundeb. Ar unrhyw adeg pan fo'r contractwr yn defnyddio chwynladdwr mewn mynwent, rhaid iddo arddangos arwydd dwyieithog addas i hysbysu a rhybuddio'r cyhoedd. |
| | **TALIADAU A CHYFNOD Y CONTRACTAU.** |
| 5.0 | Bydd y cyngor yn talu cost flynyddol y cytundeb cynnal tir fynwent a meysydd chwarae mewn taliad misol ar dderbyn anfoneb wedi anfon i'r clerc. Rhaid i'r contractwr gyflwyno anfoneb fisol i'r clerc gyda thaflen yn manylu ei waith a'r gwasanaeth a ddarparwyd ganddo yn ystod y mis blaenorol y gwaith torri glaswellt. |
| 5.1 | Bydd y cyngor yn talu cost flynyddol y cytundeb torri gwair y meysydd chwarae mewn taliad misol ar dderbyn anfoneb wedi anfon i'r clerc. Rhaid i'r contractwr gyflwyno anfoneb fisol i'r clerc gyda thaflen yn manylu ei waith a'r gwasanaeth a ddarparwyd ganddo yn ystod y mis blaenorol y gwaith torri glaswellt. |
| 5.2 | Bydd y cyngor yn talu cost flynyddol y cytundeb cynnal llwybrau ar dderbyn anfoneb. Rhaid i'r contractwr gyflwyno anfoneb ar ôl gwneud y gwaith i'r clerc yn dynodi'r union lwybrau a gynhaliwyd ganddo yn ystod y mis blaenorol gan gyfeirio at rifau adnabod y llwybr. |
| 5.3 | Mae cyfnod y Cytundeb Cynnal Mynwent yn un am dair blynedd, fel â chanlyn : Cychwyn ar 1 Mawrth 2023 ac yn diweddu ar 28 Chwefror 2026 |
| 5.4 | Mae cyfnod y Cytundeb Cynnal Meysydd Chwarae a Llwybrau Cyhoeddus am dair blynedd, fel â chanlyn : Cychwyn ar 1 Mawrth 2023 ac yn diweddu ar 28 Chwefror 2026 |

| | |
|---|---|
| 5.5 | Rhaid i'r contractwr dorri glaswellt mynwent yn unol â rhaglen o doriadau'r Cyngor Cymuned. |
| 5.6 | Rhaid i'r contractwr dorri holl laswellt mynwent at uchder o 25mm. Rhaid i'r glaswellt fod wedi ei dorri hyd at bob cofeb faen, wal, ffens, prysgwydd, sedd, rhwystr ac yn y blaen. Rhaid casglu holl doriadau yn unionsyth ar ôl toriad. Rhaid i'r Contractwr gasglu ysbwriel o'r glaswellt cyn ei dorri. |
| 5.7 | Rhaid i'r contractwr gasglu ei holl doriadau glaswellt a llystyfiant arall a'u symud ymaith o'r fynwent i domen gwastraff cofrestredig neu i le arall sydd yn dderbyniol gan y cyngor. |
| 5.8 | Rhaid i'r contractwr dorri glaswellt mynwent yn ystod cyfnod gwaith sylfaenol, sef rhwng 1 Ebrill a mis Hydref. Bydd rhaid gwneud toriad arbennig yn y fynwent o leiaf 3 diwrnod cyn Sul y Blodau pob blwyddyn. Mae'r toriadau i ddigwydd yn rheolaidd ar gylch o dair wythnos; yn unol â rhaglen torri'r cyngor. Rhaid rhoi rhybudd a rheswm pendant i'r clerc os nad yw'r contractwr yn gallu cadw at yr amserlen. |
| 5.9 | Rhaid i'r contractwr hysbysu'r clerc yn syth pe fydd achos o risg i'r cyhoedd oherwydd cyflwr cofebion neu unrhyw reswm arall. |
| 5.10 | Rhaid i'r contractwr fodloni gofynion a safonau'r cyngor parthed ansawdd ei waith a hefyd ei drefniadau i weithredu. |
| 5.11 | Rhaid i'r contractwr atal ei weithgareddau mewn mynwent am gyfnod o ddwy awr ar adeg angladd; sef un awr o'i flaen ac un ar ei ôl. |
| 5.12 | Rhaid i'r contractwr ymarfer gofal rhesymol wrth strimio o amgylch cofebion er mwyn gadael cyn lleied o laswellt ar y gwaith cerrig. Mae'r contractwr yn gyfrifol am adrodd i'r cyngor unrhyw achos o ddifrod i gofeb feini. |
| | |
| **MANYLEBAU GWAITH.** | |
| EITEM. | MANYLION. |
| | **CYNNAL LLWYBRAU CYHOEDDUS ( ATODIAD 2)** |
| 6.0 | Rhaid i'r contractwr dorri holl dyfiant ar wyneb llwybr. Rhaid symud y toriadau oddi wrth y llwybr ar ddiwedd y gwaith torri os yn drwchus. |
| 6.1 | Rhaid i'r contractwr fodloni gofynion a safonau'r cyngor parthed ansawdd ei waith a hefyd ei drefniadau i weithredu. |
| 6.2 | Rhaid i'r contractwr cynnal y llwybrau a nodir ar Restr Cynnal Llwybrau, Cyngor Cymuned Llanrug - Atodiad A yn ystod y dyddiadau a nodwyd |

| MANYLEBAU GWAITH. | |
|---|---|
| EITEM. | MANYLION. |
| | **CYNNAL MEYSYDD CHWARAE (ATODIAD 3)** |
| 7.0 | Rhaid i’r contractwr dorri glaswellt y meysydd chwarae yn unol â rhaglen o doriadau'r Cyngor. |
| 7.1 | Rhaid i’r contractwr dorri holl laswellt y meysydd chwarae at uchder o 25mm. - 30mm. Rhaid i’r glaswellt fod wedi ei dorri hyd at bob offer chwarae, wal, ffens, prysgwydd, sedd, rhwystr ac yn y blaen. Rhaid casglu holl doriadau yn syth ar ôl toriad. Rhaid i’r contractwr gasglu ysbwriel o’r glaswellt cyn ei dorri. |
| 7.2 | Rhaid i’r contractwr gasglu ei holl doriadau glaswellt a llystyfiant arall a’u symud ymaith o’r meysydd chwarae i domen gwastraff cofrestredig neu i le arall sydd yn dderbyniol gan y cyngor. |
| 7.3 | Rhaid i’r contractwr dorri glaswellt meysydd chwarae yn ystod cyfnod gwaith sylfaenol, sef rhwng 1 Ebrill a mis Hydref. Mae’r toriadau i ddigwydd yn rheolaidd ; yn unol â rhaglen torri'r cyngor. Rhaid rhoi rhybudd a rheswm pendant i'r clerc os nad yw'r contractwr yn gallu cadw at yr amserlen. |
| 7.4 | Rhaid i’r contractwr hysbysu'r clerc yn syth pe daw i weld achos o risg i’r cyhoedd oherwydd cyflwr y meysydd neu offer |
| 7.5 | Rhaid i’r contractwr fodloni gofynion a safonau'r cyngor parthed ansawdd ei waith a hefyd ei drefniadau i weithredu. |
| 7.6 | Rhaid i’r contractwr atal ei weithgareddau yn y meysydd chwarae pe bai defnydd o’r cae yn cael ei wneud. |

# Atodiad 1

| | |
|---|---|
| **AMLDERAU CYNGOR CYMUNED LLANRUG** | |
| TORRI GLASWELLT FYNWENT - RHAGLEN O 12 TORIAD Y FLWYDDYN. | |
| | |
| **Mynwent** | |
| **Cyfnod :** | **01 / 03 / 2023 – 28 / 02 / 2026** |
| Toriad 1 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Ebrill (neu cyn Sul y Blodau) |
| Toriad 2 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Mai |
| Toriad 3 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Mai |
| Toriad 4 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Mehefin |
| Toriad 5 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Mehefin |
| Toriad 6 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Gorffennaf |
| Toriad 7 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Gorffennaf |
| Toriad 8 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Awst |
| Toriad 9 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Awst |
| Toriad 10 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Medi |
| Toriad 11 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Medi |
| Toriad 12 - Canol i ddiwedd | Mis Hydref |

| | |
|---|---|
| Pris am unrhyw doriad ychwanegol a ofynnir amdano gan y Cyngor - dylid nodi os yw'r pris gyda TAW neu ddim | **£** |

## ATODIAD 2

| **TORRI TYFIANT AC AGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS - GWELER RHESTR LLWYBRAU CYNGOR CYMUNED LLANRUG 2023-2025** | |
|---|---|
| | |
| **Cyfnod : 2023** | |
| Toriad 1 waith y flwyddyn - **Mehefin 2023** | |
| **Cyfnod : 2024** | |
| Toriad 1 waith y flwyddyn - **Mehefin 2024** | |
| **Cyfnod : 2025** | |
| Toriad 1 waith y flwyddyn - **Mehefin 2025** | |

| **Nifer** | **Lleoliad** | **Rhif Llwybr** | **Categori** | **Angen Chwynladdwr** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhos Ddu o Groeslon Marc | 3 | 1 | Oes |
| 2 | Tal y Bont i Barc Isaf | 2 | 1 | Oes |
| 3 | Afon Ogwen i Fyngalo Glanffynnon | 75 | 1 | Oes |
| 4 | Llwybr Pentra | 76 | 1 | Oes |
| 5 | Cefn Llwyd | 26 | 4 | Oes |
| 6 | Cae Rhos | 27 | 3 | Oes |
| 7 | Allt Goch | 16 | 1 | NA |
| 8 | Bwlch | 18 | 2 | NA |
| 9 | Llwybr Steps | 19 | 1 | NA |
| 10 | Llwybr Bonc | 25 | 3 | NA |
| 11 | Pencae (Hermon i Didfa) | 30 | 3 | Oes |
| 12 | Eglwys | 69 | 3 | Oes |
| 13 | Tŷ'n Coed | 80 & 70 | 3 | Oes |
| 14 | Pontrug | 95 | 4 | Oes |
| 15 | Tŷ Mawr (Didfa i Grawia) | 29 | 3 | Oes |
| 16 | Llwyn Brain o Pengreuor | 32 | 4 | Oes |

Llwybrau i'w torri bob dwy flynedd - i'w archwilio yn 2023 ac i'w torri ar gais y Cyngor os bydd angen.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Tan y Coed Uchaf | 24 | 3 | NA |
| 18 | Gelliod | 71 | 1 | NA |

| | |
|---|---|
| Pris am unrhyw doriad ychwanegol a ofynnir amdano gan y Cyngor - dylid nodi os yw'r pris gyda THAW neu ddim | £ |

# ATODIAD 3

| | |
|---|---|
| **AMLDERAU CYNGOR CYMUNED LLANRUG** | |
| TORRI GLASWELLT MEYSYDD CHWARAE NANT Y GLYN, PWLL MOELYN, ALLT GOCH A DOLAFON CWM Y GLO RHAGLEN O 12 TORIAD Y FLWYDDYN. | |
| | |
| **MEYSYDD CHWARAE NANT Y GLYN, PWLL MOELYN, ALLT GOCH A DOLAFON CWM Y GLO** | |
| **Cyfnod :** | **01 / 04 / 2023 – 28 / 02 / 2026** |
| Toriad 1 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Ebrill |
| Toriad 2 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Mai |
| Toriad 3 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Mai |
| Toriad 4 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Mehefin |
| Toriad 5 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Mehefin |
| Toriad 6 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Gorffennaf |
| Toriad 7 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Gorffennaf |
| Toriad 8 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Awst |
| Toriad 9 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Awst |
| Toriad 10 - Wythnos yn cychwyn : | 1 Medi |
| Toriad 11 - Wythnos yn cychwyn : | 15 Medi |
| Toriad 12 - Canol i ddiwedd | Mis Hydref |

| | |
|---|---|
| Pris am unrhyw doriad ychwanegol a ofynnir amdano gan y Cyngor - dylid nodi os yw'r pris gyda TAW neu ddim | £ |

**AR ÔL CWBLHAU'R DDOGFEN, DYLID EI ANFON AT**

**MR MEIRION JONES**
**CLERC CYNGOR CYMUNED LLANRUG**
**7 NANT Y GLYN**
**LLANRUG**
**GWYNEDD**
**LL55 4AH**

**NEU DRWY E-BOST AT clerc@llanrug.cymru**

**WEDI EI FARCIO YN GLIR AR YR AMLEN 'TENDR'**